



Cyngor Sir Ceredigion

Ceredigion County Council

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni *Governors' Annual Report to Parents*

Ysgol / School: Ysgol Bro Pedr

Blwyddyn / Year: 2025-2026

Rhaid i gyrrff llywodraethu ddarparu copi o'r adroddiad blynyddol yn rhad ac am ddim i bob rhiant a gofalwr sydd â phlant sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol.

Governing bodies must provide all parents and carers with children registered at the school a copy of the annual report free of charge.

Manylion cyfarfodydd gyda rhieni a gofalwyr dros y flwyddyn ddiwethaf: <i>Details of meetings with parents and carers over the past year:</i>	
Dyddiad / <i>Date:</i>	Dim deiseb i alw cyfarfod blynyddol N/A - no petition to call an annual meeting
Lleoliad / <i>Venue:</i>	
Rheswm am y Cyfarfod <i>Reason for the meeting:</i>	
Enwau'r rhai oedd yn bresennol (eithrio rhieni/gofalwyr): <i>Names of those present (excluding parents/carers):</i>	
Nifer rhieni/gofalwyr yn bresennol: <i>Number of parents/carers present:</i>	
Cofnod o faterion a drafodwyd a chamau gweithredu: <i>Record of matters discussed and actions:</i>	

1. Manylion Llywodraethwyr / Governor details:

Enw'r clerc a'r cadeirydd: <i>Name of the clerk and chair:</i>	Cadeirydd / Chair: Mrs Fiona Drury Clerc / Clerk: Angela Jones Canolfan Rheidol, Llanbadarn Fawr, Ceredigion, SY23 3UE Llywodraethwyr@ceredigion.gov.uk Governors@ceredigion.gov.uk
Enwau'r aelodau, eu cyfnodau mewn swydd a chategori: <i>Names of members, their terms of office and category:</i>	
Mr Aled Dafis, Athro/Athrawes / Teacher , 01/12/2026 Cllr Ann Bowen Morgan, Awdurdod Lleol / Local Authority , 07/12/2027 Cllr Euros Davies, Awdurdod Lleol / Local Authority , 15/05/2030 Mrs Fiona Drury, Awdurdod Lleol / Local Authority , 02/09/2029 Mrs Carys Lloyd-Jones, Cymunedol / Community , 04/11/2027 Mr Justin Davies, Cymunedol / Community , 07/02/2027 Cllr Gabrielle Davies, Cymunedol / Community , 16/10/2029 Mrs Rhian Evans, Cymunedol / Community , 01/08/2027 Mrs Marian Rees, Cymunedol / Community , 25/01/2028 Mrs Carys Morgan, Pennaeth / Headteacher Mrs Lowri Davies, Rhiant / Parent , 22/09/2029 Mr Dyfed Evans, Rhiant / Parent , 25/01/2028 Mr Frank Hinley, Rhiant / Parent , 22/09/2029 Mr Aled Morgan, Rhiant / Parent , 25/01/2028 Miss Fiona Ticehurst, Rhiant / Parent , 07/05/2028 Mrs Hannah Jarman, Rhiant / Parent , 22/09/2029 Mrs Dorota Lamb, Staff, 02/02/2027	
Gwybodaeth am etholiad rhiant lywodraethwr nesaf: <i>Information about the next parent governor election:</i>	Bydd yn cael ei hysbysebu pan fydd swydd wag ar gael i bob rhiant wneud cais amdani Will be advertised when a vacancy becomes available for all parent to apply

2. Gwybodaeth am Berfformiad a Thargedau / Performance and Target Information:

Ar gyfer ysgolion uwchradd, y crynodeb perfformiad diweddaraf mewn perthynas â'r ysgol: For secondary schools, the most recent summary of performance in relation to the school:

Mae Ysgol Bro Pedr yn parhau i sicrhau deilliannau cadarnhaol ar draws Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5, gyda disgyblion yn cyflawni'n dda mewn ystod eang o bynciau academiaidd a galwedigaethol.

Yn TGAU, mae canran uchel o ddisgyblion yn cyflawni cymwysterau llwyddiannus, gyda chryfderau arbennig mewn nifer o bynciau unigol. Mae canlyniadau'r Dystysgrif Her Sgiliau yn parhau i fod yn gryf iawn, ac mae safonau uchel wedi'u cyflawni mewn pynciau megis Bioleg, Cemeg, Astudiaethau Crefyddol, Drama a phynciau galwedigaethol ein cwricwlwm. Mae perfformiad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i hyrwyddo dwyieithrwydd a datblygu medrau iaith cryf. Mae'r ysgol yn falch bod 96.1% o ddisgyblion wedi cyflawni o leiaf 5 cymhwyster gradd A*-G neu gyfwerth a 68.0% wedi cyflawni 5 cymhwyster gradd A*-C neu gyfwerth.

Yn y Chweched Dosbarth, mae disgyblion yn parhau i gyflawni canlyniadau Safon Uwch cadarn iawn sy'n eu galluogi i symud ymlaen yn llwyddiannus i brifysgolion, prentisiaethau a chyflogaeth. Mae'r ysgol yn falch bod 41.8% o ddisgyblion wedi cyflawni o leiaf 3 cymhwyster Safon Uwch gradd A*-B. Mae'r ystod eang o bynciau Safon Uwch sydd ar gael, ynghyd â chymorth bugeiliol a gyrfaedd cryf, yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu camau nesaf.

Mae'r ysgol yn arbennig o falch bod pob disgybl sy'n gadael yr ysgol yn symud ymlaen i gyrchfan gadarnhaol, boed hynny mewn addysg bellach neu uwch, hyfforddiant, prentisiaeth neu gyflogaeth. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial ac yn barod ar gyfer y dyfodol.

Ysgol Bro Pedr continues to secure positive outcomes across Key Stage 4 and Key Stage 5, with pupils performing well in a wide range of academic and vocational subjects.

At GCSE, a high percentage of pupils achieve successful qualifications, with particular strengths in a number of individual subjects. Results for the Skills Challenge Certificate remain very strong, and high standards have been achieved in subjects such as Biology, Chemistry, Religious Studies, Drama and the vocational subjects within our curriculum. Performance in Welsh First Language also reflects the school's commitment to promoting bilingualism and developing strong language skills. The school is proud that 96.1% of pupils achieved at least 5 qualifications at grades A*-G (or equivalent) and 68.0% achieved 5 qualifications at grades A*-C (or equivalent).

In the Sixth Form, pupils continue to achieve very strong A-Level results that enable them to progress successfully to universities, apprenticeships and employment. The school is proud that 41.8% of pupils achieved at least 3 A-Level qualifications at grades A*-B. The wide range of A-Level subjects available, combined with strong pastoral and careers support, ensures that pupils develop the knowledge, skills, and confidence they need for their next steps.

The school is particularly proud that every pupil leaving the school moves on to a positive destination, whether in further or higher education, training, an apprenticeship, or employment. This reflects the school's commitment to ensuring that every learner achieves their potential and is prepared for the future.

Nifer a chanran yr absenoldebau anawdurdodedig ac awdurdodedig: The number and percentage of unauthorised and authorised absences:

2025-26: Absenoldebau awdurdodedig ysgol gyfan - 6.45%

Whole school authorised absences - 6.45%

Absenoldebau anawdurdodedig ysgol gyfan - 4.29%

Whole school unauthorised absences - 4.29%

Absenoldebau awdurdodedig Derbyn-BI.6 - 5.8%

Reception-Year 6 authorised absences - 5.8%

Absenoldebau anawdurdodedig Derbyn-BI.6 - 3.03%
 Reception-Year 6 unauthorised absences - 3.03%
 Absenoldebau awdurdodedig BI.7-11 – 6.73%
 Year 7-11 authorised absences - 6.73%
 Absenoldebau anawdurdodedig BI.7-11 - 4.83%
 Year 7-11 unauthorised absences - 4.83%

Gwybodaeth cyrchfan yn ymwneud â dysgwyr yn gadael yr ysgol, o ran addysg barhaus, cyflogaeth neu hyfforddiant a gymerir gan y rhai sy'n gadael:

Destination information relating to learners leaving the school, in terms of continuing education, employment or training taken up by those leavers:

Mae'r ysgol yn falch o adrodd bod pob dysgwr a adawodd yr ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi symud ymlaen yn llwyddiannus i gyrchfan gadarnhaol. Mae'r mwyafrif wedi parhau mewn addysg bellach mewn colegau, chweched dosbarth a phifysgol, tra bod eraill wedi dechrau ar brentisiaethau neu wedi symud ymlaen i gyflogaeth.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddysgwyr sy'n gadael yr ysgol wedi'u cofnodi fel NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Mae hyn yn adlewyrchu effeithiolrwydd y cymorth gyrfaedd a'r arweiniad personol a ddarperir i ddisgyblion wrth gynllunio eu camau nesaf.

Hoffem gydnabod cyfraniad gwerthfawr Iona Lloyd-Jones, Swyddog Gyrfaedd yr ysgol, sy'n cyfarfod yn rheolaidd â disgyblion i drafod opsiynau ôl-16 ac ôl-18, darparu cyngor diduedd, a'u cefnogi drwy'r broses ymgeisio. Mae'r gefnogaeth barhaus hon wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod pob dysgwr yn symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth briodol.

The school is pleased to report that all learners who left the school during the last academic year progressed successfully to positive destinations. The majority continued into further education at colleges, sixth form or university, while others moved into apprenticeships or employment.

Currently, there are no school leavers recorded as NEET (Not in Education, Employment or Training). This reflects the effectiveness of the careers support and personalised guidance provided to students as they plan their next steps.

We would like to recognise the valuable contribution of Iona Lloyd-Jones, the school's Careers Officer, who meets regularly with students to discuss post-16 and post-18 options, provide impartial advice, and support them through the application process. This ongoing support has been instrumental in ensuring that every learner progresses into appropriate education, training, or employment.

3. Datganiad Ariannol / *Financial Statement:*

Datganiad ariannol a ddarparwyd i'r corff llywodraethu gan yr ALI ers yr adroddiad blaenorol: <i>Financial statement provided to the governing body by the LA since the previous report:</i>	Wedi rhannu'r gyda'r Corff Llywodraethol. Shared with the Governing Body.
Manylion cyffredinol am sut y gwariwyd y cyllid a ddarparwyd gan yr All: <i>General details of how funding provided by the LA has been spent:</i>	Wedi rhannu'r gyda'r Corff Llywodraethol. Shared with the Governing Body.
Manylion unrhyw roddion a wnaed i'r ysgol: <i>Details of any gifts made to the school:</i>	£10,000 - rhodd Capel-y-Groes gift
Swm unrhyw lwfansau teithio/chynhaliath a delir i Llywodraethwyr	£0

4. Camau a gymerwyd gan y corff llywodraethu neu'r ysgol / Action taken by the governing body or school:

Newidiadau i bolisiâu neu benderfyniadau a wnaed o ganlyniad i unrhyw benderfyniadau a basiwyd yn y cyfarfod diwethaf:

Changes to policies or decisions made as a result of any resolutions passed at the last meeting:

Mae'r ysgol wedi cyflwyno pocedi Yondr a Pholisi Ffonau Symudol newydd er mwyn cefnogi amgylchedd dysgu mwy ffocysedig a lleihau'r defnydd amhriodol o ffonau yn ystod y diwrnod ysgol. O ganlyniad i'r polisi newydd, pan fydd amheuaeth resymol bod disgybl yn meddu ar neu'n defnyddio ffôn symudol yn groes i'r rheolau, efallai y bydd angen cynnal chwiliad.

Er mwyn sicrhau bod unrhyw chwiliadau'n cael eu cynnal yn gyson, yn deg, ac yn unol ag urddas a pharch pob disgybl, mae'r ysgol hefyd wedi datblygu a chyflwyno Canllaw Chwilio Disgyblion newydd i staff.

The school has introduced Yondr pouches and a new Mobile Phone Policy to support a more focused learning environment and reduce inappropriate phone use during the school day. As a result of the new policy, where there is a reasonable suspicion that a student is in possession of or using a mobile phone contrary to school rules, a search may be required.

To ensure that any searches are conducted consistently, fairly, and with dignity and respect for all learners, the school has also developed and implemented new Student Search Guidance for staff.

Cynnydd ar gynllun gweithredu ôl-arolygiad yr ysgol:

Progress on the school's post-inspection action plan:

Yn dilyn arolygiad Estyn ym mis Mai 2025, nodwyd tri argymhelliad ar gyfer datblygiad pellach yr ysgol: sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd adborth ac yn lefel yr her i ddisgyblion, cynyddu'r defnydd o Gymraeg achlysurol mewn gwersi cyfrwng Saesneg, a gwella presenoldeb.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn yn erbyn pob un o'r argymhellion hyn.

Argymhelliad 1: Sicrhau cysondeb yn ansawdd adborth ac yn lefel yr her i ddisgyblion

Mae arweinwyr wedi cryfhau trefniadau monitro addysgu a dysgu drwy arsylwadau gwersi, coetsio, craffu ar waith disgyblion a thrafodaethau proffesiynol rheolaidd. Mae ffocws penodol wedi bod ar sicrhau bod adborth yn glir, yn benodol ac yn helpu disgyblion i wella eu gwaith. Mae rhaglenni datblygiad proffesiynol a Perlau Pedr wedi rhoi sylw i strategaethau her effeithiol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei ymestyn yn briodol. Mae tystiolaeth monitro diweddar yn dangos cynnydd cadarn mewn cysondeb ar draws adrannau a chyfnodau allweddol.

Argymhelliad 2: Cynyddu'r defnydd o Gymraeg achlysurol mewn gwersi cyfrwng Saesneg

Mae'r ysgol wedi rhoi ffocws cryf ar hyrwyddo defnydd naturiol o'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Trwy waith y Fforwm Cymreictod, Radio Bro Pedr, mentrau llais y disgybl a gweithgareddau staff, mae cyfleoedd ychwanegol yn cael eu creu i annog defnydd dyddiol o Gymraeg achlysurol. Mae'r defnydd o ymadroddion cyffredin gan staff a disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n gyson, ac mae monitro'n dangos bod hyder cynyddol ymhlith llawer o ddisgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Argymhelliad 3: Gwella presenoldeb

Mae gwella presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r ysgol. Mae'r Tîm Lles, Presenoldeb ac Ymddygiad wedi parhau i ddatblygu systemau cryf i gefnogi a herio presenoldeb, gan weithio'n agos gyda theuluoedd, asiantaethau allanol a'r Awdurdod Lleol. Mae ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, gwobrau presenoldeb a monitro rheolaidd wedi atgyfnerthu pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn ddyddiol. Er gwaethaf yr ymdrechion sylweddol hyn a'r ystod eang o gymorth sydd ar gael, nid yw canran presenoldeb yr ysgol wedi cynyddu i'r lefel yr oeddem wedi gobeithio ei gweld. O ganlyniad, bydd presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth o fewn ein cynllun gwella

ysgol, gyda ffocws parhaus ar weithio mewn partneriaeth â theuluoedd i fynd i'r afael â rhwystrau i bresenoldeb a sicrhau bod pob dysgwr yn manteisio i'r eithaf ar eu haddysg.

Yn ehangach, mae'r ysgol wedi parhau i adeiladu ar y cryfderau a nodwyd gan Estyn, gan gynnwys datblygu llais y disgybl, cynnal ei diwylliant cynhwysol cryf, a rhannu arferion effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r Corff Llywodraethu yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y cynllun gweithredu ac yn fodlon â'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma.

Following the Estyn inspection in May 2025, the school was given three recommendations: to improve consistency in the quality of feedback and challenge, increase the use of incidental Welsh in English-medium lessons, and improve attendance.

The school has made strong progress against each of these recommendations.

Recommendation 1: Ensure consistency in the quality of feedback and challenge

Leaders have strengthened monitoring arrangements through lesson observations, work scrutiny and regular professional discussions. Particular attention has been given to ensuring that feedback is precise, actionable and supports pupils to improve the quality of their work. Professional learning activities have focused on effective challenge so that all learners are appropriately stretched. Recent monitoring evidence indicates improving consistency across departments and key stages.

Recommendation 2: Increase the use of incidental Welsh in English-medium lessons

The school has placed a strong emphasis on promoting the Welsh language across all aspects of school life. Through the work of the Welshness Forum, Radio Bro Pedr, pupil voice initiatives and staff-led activities, additional opportunities have been created to encourage the daily use of incidental Welsh. The consistent promotion of Welsh phrases and informal language is helping to build pupils' confidence in using Welsh in everyday situations.

Recommendation 3: Improve attendance

Improving attendance remains a key priority for the school. The Well-being, Attendance and Behaviour Team has continued to develop robust systems to support and challenge attendance, working closely with families, external agencies and the Local Authority. Attendance awareness campaigns, attendance rewards and regular monitoring have reinforced the importance of attending school every day. Despite these significant efforts and the wide range of support available, attendance levels have not increased to the extent we had hoped. As a result, attendance will remain a key priority within our school improvement plan, with a continued focus on working in partnership with families to address barriers to attendance and ensure that every learner is able to maximise their educational opportunities.

More broadly, the school has continued to build on the strengths identified by Estyn, including its highly effective pupil voice, inclusive culture and strong professional learning practices. The Governing Body receives regular updates on progress against the post-inspection action plan and is satisfied with the progress made to date.

Datblygu neu gryfhau cysylltiadau â'r gymuned (gan gynnwys cysylltiadau â'r heddlu): *Developing or strengthening links with the community (including links with the police):*

Mae Ysgol Bro Pedr yn parhau i chwarae rhan ganolog ym mywyd y gymuned leol ac yn ymrwymedig i ddatblygu a chynnal partneriaethau cryf gyda theuluoedd, sefydliadau lleol a gwasanaethau allweddol.

Mae Llais Pedr, cylchlythyr wythnosol yr ysgol, yn ddull effeithiol iawn o gyfathrebu â rhieni a'r gymuned. Mae'n rhannu newyddion, dathlu llwyddiannau ac yn rhoi trosolwg rheolaidd o'r cyfraniad gwerthfawr y mae ein disgyblion a'n staff yn ei wneud i gymuned ehangach Bro Pedr.

Mae'r ysgol yn cynnal nifer o berfformiadau a sioeau drwy gydol y flwyddyn sy'n denu cefnogaeth gref gan y gymuned. Yn ogystal, mae disgyblion yn ymweld yn rheolaidd â chartrefi gofal a lleoliadau cymunedol lleol, gan feithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng cenedlaethau a datblygu ymdeimlad cryf o ddinasyddiaeth. Yn ddiweddar, bu'r ysgol hefyd yn cydweithio â rhanddeiliaid i greu cân swyddogol yr ysgol, gan gryfhau ymdeimlad o berthyn a balchder cymunedol.

Mae'r CRhA yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r ysgol a'r gymuned drwy drefnu digwyddiadau llwyddiannus drwy'r flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys y Daith Tractorau a Cherbydau Nadolig, sydd wedi dod yn achlysur poblogaidd iawn ac yn codi arian ar gyfer prosiectau a mentrau lleol.

Mae'r ysgol yn cynnal perthynas waith gadarn a chadarnhaol gyda'r Heddlu, gan gydweithio'n agos pan fo angen mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles pobl ifanc yn y gymuned. Mae PC Hannah yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynnal sesiynau addysgol a chefnogol gyda disgyblion ar bynciau megis diogelwch, cyfrifoldeb personol a gwneud dewisiadau cadarnhaol.

Mae Ysgol Bro Pedr yn ffodus i fod yn rhan o gymuned glos a chefnogol. Mae llawer o'n staff a'n disgyblion yn aelodau gweithgar o'r gymuned leol, ac mae'r cysylltiadau cryf hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ethos cynhwysol a chroesawgar yr ysgol.

Ysgol Bro Pedr continues to play a central role within the local community and is committed to developing and maintaining strong partnerships with families, local organisations and key services.

Llais Pedr, the school's weekly newsletter, is a highly effective means of communication with parents and the wider community. It shares school news, celebrates achievements and provides regular updates on the valuable contribution made by pupils and staff to the wider Bro Pedr community.

The school hosts a wide range of performances and shows throughout the year, which attract strong community support. In addition, pupils regularly visit care homes and local community settings, helping to build positive intergenerational relationships and develop a strong sense of citizenship. More recently, the school worked with stakeholders to create the school's official song, further strengthening a sense of belonging and community pride.

The PTA plays a vital role in supporting both the school and the wider community by organising a variety of successful events throughout the year. These include the popular Christmas Tractor and Vehicle Run, which raises funds for school initiatives and local causes.

The school maintains a strong and positive working relationship with the Police, working closely together where issues of anti-social behaviour or community safety arise. PC Hannah is a regular visitor to the school and delivers educational and supportive sessions on topics such as personal responsibility, safety and making positive choices.

Ysgol Bro Pedr is fortunate to be part of a close and supportive community. Many of our staff and pupils are active members of the local area, and these strong connections make a significant contribution to the inclusive and welcoming ethos of the school.

Crynodeb o'r newidiadau i brospectws yr ysgol ers ei gyhoeddi:

A summary of changes to the school prospectus since publication:

Does dim newid.

There is no change.

Unrhyw adolygiad o bolisïau ysgol / Any review of school policies:

Mae'r ysgol yn cynnal rhaglen adolygu bolisïau gynhwysfawr er mwyn sicrhau bod ei pholisïau'n parhau'n gyfredol, yn unol â gofynion statudol ac yn adlewyrchu anghenion yr ysgol a'i chymuned. Mae polisïau'n cael eu hadolygu yn unol â rota dymhorol a gymeradwywyd gan y Corff Llywodraethu, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i feysydd sy'n ymwneud â diogelu, iechyd a diogelwch, lles, addysgu a dysgu, ac unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu ganllawiau cenedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o bolisïau wedi cael eu diweddarau a'u cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu fel rhan o'r cylch adolygu rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod polisïau'r ysgol yn parhau i gefnogi safonau uchel o addysgu, dysgu, diogelwch a lles ar gyfer ein holl ddysgwyr a staff.

The school operates a comprehensive policy review programme to ensure that all policies remain up to date, compliant with statutory requirements and reflective of the needs of the school and its community. Policies are reviewed in accordance with a planned rolling programme approved by the Governing Body, with particular priority given to safeguarding, health and safety, wellbeing, teaching and learning, and any changes in legislation or national guidance.

During the past year, a number of policies have been updated and approved by the Governing Body as part of this regular review cycle. This ensures that school policies continue to support high standards of teaching, learning, safety and wellbeing for all learners and staff.

Gweithredu ac adolygu strategaethau ysgol penodol: Implementing and reviewing specific school strategies:

Ymarfer Perthynol (Relational Practice)

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu strategaeth Ymarfer Perthynol (Relational Practice) y sir fel rhan allweddol o'i gwaith i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol, cynhwysol a chefnogol i bob disgybl. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar y gred mai perthnasoedd cryf, cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yw'r sylfaen ar gyfer dysgu llwyddiannus, lles ac ymddygiad cadarnhaol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant gan Charlotte, sy'n gysylltiedig â gwaith Paul Dix a'i egwyddorion yn *When the Adults Change, Everything Changes*. Mae'r hyfforddiant wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd cysondeb ymhlith oedolion, adeiladu perthnasoedd cadarnhaol, defnyddio iaith a strategaethau sy'n cefnogi ymddygiad priodol, a sicrhau bod disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Yn ogystal â'r hyfforddiant allanol, mae staff wedi parhau i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u harferion drwy gyfres o sesiynau datblygiad proffesiynol mewnol "Perlau Pedr" drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain wedi rhoi cyfleoedd rheolaidd i staff rannu arferion effeithiol, trafod heriau ac atgyfnerthu'r egwyddorion perthynol ar draws yr ysgol. Trwy weithredu'r strategaeth hon, nod yr ysgol yw sicrhau dull cyson o gefnogi ymddygiad, cryfhau ymdeimlad o berthyn ymhlith disgyblion, a meithrin diwylliant lle mae parch, caredigrwydd a disgwyliadau uchel yn sail i fywyd yr ysgol. Mi fydd y gwaith yma'n parhau yn 26/27.

Yondr

Fel rhan o ymrwymiad yr ysgol i wella canolbwyntio, lles a chysylltiad disgyblion â'u dysgu, cyflwynwyd Pecynau Yondr i reoli'r defnydd o ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol. Nod y fenter hon oedd lleihau'r gwrthdychiadau a all effeithio ar ddysgu, annog rhyngweithio wyneb yn wyneb rhwng disgyblion, a chreu amgylchedd lle gall pob dysgwr ganolbwyntio'n llawn ar ei waith a chymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol.

Ers cyflwyno'r Pecynau Yondr, mae'r strategaeth wedi bod yn effeithiol ar y cyfan. Mae staff wedi nodi gwelliant yn lefelau canolbwyntio ac ymgysylltu disgyblion yn y dosbarth, ynghyd â gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â defnyddio ffonau symudol yn ystod y dydd. Mae'r strategaeth hefyd wedi helpu i greu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu a datblygu perthnasoedd cadarnhaol yn ystod amser egwyl a chinio. Er bod yr ysgol yn parhau i fonitro a gwerthuso effaith y cynllun, mae'r defnydd o becynau Yondr wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at nod ehangach yr ysgol o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, lles, a pharodrwydd i ddysgu.

Relational Practice

The school has adopted the Local Authority's Relational Practice strategy as a key element of its work to create a positive, inclusive, and supportive learning environment for all pupils. This approach is founded on the belief that strong, positive relationships between staff and pupils are central to successful learning, wellbeing, and positive behaviour. Over the past year, all staff have received training from Charlotte of Pivotal Education, based on the work and principles of Paul Dix and his book *When the Adults Change, Everything Changes*. The training has focused on the importance of adult consistency, building positive relationships, using language that promotes positive behaviour, and creating a culture where every pupil feels valued, respected, and supported.

Alongside this external training, staff have continued to develop their understanding and practice through a series of internal professional learning sessions known as "Pedr Pearls" throughout the year. These sessions have provided regular opportunities for staff to share effective practice, reflect on challenges, and reinforce key relational approaches across the school. Through the implementation of this strategy, the school aims to ensure a consistent approach to behaviour support, strengthen pupils' sense of belonging, and foster a culture where respect, kindness, high expectations, and positive relationships underpin all aspects of school life. This work will continue in the new academic year.

Yondr Pouches

As part of its commitment to improving pupils' focus, wellbeing, and engagement in learning, the school introduced Yondr pouches to support the management of mobile phone use during the school day. The aim of this initiative was to reduce distractions in lessons, encourage positive

face-to-face interactions, and create an environment where pupils can fully engage with their learning and the wider life of the school.

Since their introduction, the strategy has been effective on the whole, with staff reporting improved levels of attention and engagement in lessons, alongside a reduction in issues relating to mobile phone use during the school day. Pupils have also been encouraged to develop healthier habits around technology use and to engage more positively with their peers during break and lunchtime periods. While the school continues to monitor and refine its approach, the implementation of Yondr pouches has contributed positively to the school's wider aims of promoting high standards of behaviour, wellbeing, and readiness to learn.

5. Sefydliad, cynlluniau a pholisïau / Organisation, plans and policies:

Crynodeb o gynllun datblygu'r ysgol / A summary of the school development plan:

Mae blaenoriaethau gwella'r ysgol wedi'u seilio ar weithgareddau hunanwerthuso'r ysgol, adborth rhanddeiliaid a'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad arolygiad diweddar Estyn. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau'r deilliannau gorau posibl i'n dysgwyr a chefnogi gwelliant parhaus ar draws yr ysgol.

Blaenoriaeth 1: Presenoldeb

Gwella presenoldeb disgyblion

Bydd yr ysgol yn parhau i ganolbwyntio ar wella presenoldeb drwy weithio'n agos gyda disgyblion, teuluoedd ac asiantaethau allanol. Er bod ystod eang o strategaethau cefnogi ac ymyrryd wedi'u rhoi ar waith, mae presenoldeb yn parhau'n her genedlaethol ac yn flaenoriaeth bwysig i'r ysgol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo diwylliant lle mae presenoldeb da yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi.

Blaenoriaeth 2: Parodrwydd i Ddysgu

Gwreiddio diwylliant ymarfer perthynol i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein diwylliant cynhwysol a chefnogol drwy gryfhau perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff, disgyblion a theuluoedd. Y nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi ac yn barod i ddysgu, gan gefnogi lles, ymddygiad ac ymgysylltiad â dysgu.

Blaenoriaeth 3: Dysgu ac Addysgu

Sicrhau cysondeb yn ansawdd adborth ar waith a'r lefel her i gael effaith gadarnhaol ar safon gwaith disgyblion

Bydd yr ysgol yn parhau i ddatblygu ansawdd addysgu drwy sicrhau bod adborth yn gyson, yn adeiladol ac yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith. Bydd ffocws hefyd ar sicrhau lefel briodol o her i bob dysgwr fel eu bod yn cyflawni eu potensial llawn. Mae'r flaenoriaeth hon yn ymateb yn uniongyrchol i argymhelliad gan Estyn.

Blaenoriaeth 4: Y Gymraeg

Cynyddu'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn y gwersi cyfrwng Saesneg er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus

Byddwn yn hyrwyddo defnydd dyddiol o'r Gymraeg ar draws pob agwedd o fywyd yr ysgol. Bydd ffocws arbennig ar gynyddu'r defnydd o Gymraeg achlysurol mewn gwersi cyfrwng Saesneg ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol, er mwyn cryfhau hyder disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Mae'r flaenoriaeth hon hefyd yn adlewyrchu argymhelliad Estyn.

The school's improvement priorities are based on the outcomes of self-evaluation activities, stakeholder feedback and the recommendations identified in the recent Estyn inspection report. These priorities are designed to secure the best possible outcomes for learners and support continuous improvement across the school.

Priority 1: Attendance

Improving pupil attendance

The school will continue to focus on improving attendance by working closely with pupils, families and external agencies. Although a wide range of support and intervention strategies are

in place, attendance remains a national challenge and a key priority for the school. We will continue to promote a culture where good attendance is valued and actively supported.

Priority 2: Readiness to Learn

Embedding a relational practice culture to promote positive attitudes towards learning

We will continue to strengthen our inclusive and supportive culture by developing positive relationships between staff, pupils and families. Our aim is to ensure that every learner feels safe, valued and ready to learn, supporting wellbeing, behaviour and engagement in learning.

Priority 3: Teaching and Learning

Ensuring consistency in the quality of feedback and the level of challenge to positively impact pupils' standards of work

The school will continue to develop the quality of teaching by ensuring that feedback is consistent, constructive and helps pupils understand how to improve their work. There will also be a focus on providing an appropriate level of challenge for all learners to help them achieve their full potential. This priority responds directly to a recommendation identified by Estyn.

Priority 4: Welsh Language

Increasing the use of incidental Welsh in English-medium lessons to encourage pupils to use Welsh more confidently

We will promote the daily use of Welsh across all aspects of school life. Particular emphasis will be placed on increasing the use of incidental Welsh in English-medium lessons and informal situations to help learners develop the confidence to use Welsh naturally and regularly. This priority also reflects a recommendation made by Estyn.

Manylion polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan gynnwys ei llwyddiant, dyraniad adnoddau neu newidiadau a wnaed, unrhyw ymgynghoriad â'r ALI ac ysgolion eraill:

Details of the Additional Learning Needs (ALN) policy, including its success, the allocation of resources or changes made, any consultation with the LA and other schools:

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Tribiwnlys Addysg 2018 yw polisi pob ysgol yng Nghymru.

Additional Learning Needs and Education Tribunal Act 2018 is the policy for all schools in Wales.

Cyfnod trosglwyddo yn llwyr at y Ddeddf wedi dod i ben yn Haf 2026. Mae pob disgybl sydd wedi'u nodi ag ADY yn ôl diffiniad y Ddeddf ar y system newydd erbyn hyn.

Transition period from previous Act and Code came to an end in Summer 2026. All pupils with identified ALN according to the Act are now on the new system.

Mae'r ysgol yn derbyn cyllid oddi wrth yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI) a hefyd trwy geisiadau panel.

The school is funded via Local Authority funding allocation and individual panel applications.

Disgrifiad o'r trefniadau derbyn ar gyfer dysgwyr ag anableddau (gan gynnwys y trefniadau derbyn ar gyfer dysgwyr ag ADY heb ddatganiadau):

A description of the admission arrangements for learners with disabilities (including the admissions arrangements for learners with ALN without statements):

Caiff rhieni y cyfle i nodi oes anableddau/diagnosis / ADY ar y ffurflen gais am fynediad yn y cychwyn cyntaf.

Bydd pob rhiant a disgybl yn cael gwahoddiad i drafod unrhyw anghenion cyn iddynt ddechrau neu ar ddechrau'r ysgol gyda'r CADY neu'r Pennaeth Blwyddyn.

Bydd yr ysgol yn cynnal cyfarfod trosglwyddo gwybodaeth gyda'r ysgol flaenorol neu'r tîm amlddisgyblaeth mor fuan a phosibl wedi i'r disgybl gyrraedd yr ysgol.

Bydd disgybl â Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn ôl y Ddeddf yn derbyn adolygiad o'r ddarpariaeth o fewn 6 wythnos i ddechrau yn yr ysgol newydd.

Bydd disgybl sy'n cyrraedd yr ysgol â CDU Lloegr (EHCP) yn dilyn yr un broses ond yr Awdurdod Addysg Lleol sydd yn gyfrifol am y ddogfen cyfreithiol (CDU) yn y cychwyn cyntaf. Parents are offered the opportunity to note any disabilities or ALN on the school application form at point of entry.

Every parent and pupil is offered an admissions meeting to discuss any needs before starting school either with the Head of Year or ALNco

If there is ALN, the school will arrange a transition meeting with the previous school.

All pupils with an EHCP (England) will follow the same process but the initial Individual Development Plan (IDP) will be held by the Local Authority until it transfers to the school.

Manylion y camau a gymerwyd i atal dysgwyr ag anableddau rhag cael eu trin yn llai ffafriol na dysgwyr eraill:

Details of steps taken to prevent learners with disabilities from being treated less favourably than other learners:

Mae'r ysgol yn gynhwysol ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ein bod yn diwallu pob angen. Lle ei bod yn addas, rydym yn creu proffiliau un dudalen er mwyn hysbysu pawb sy'n gweithio gyda'r disgybl pa strategaethau cefnogi sy'n gweithio orau a pha addasiadau rhesymol y dylid rhoi mewn lle.

Lle mae'r ysgol/ disgybl neu rieni yn teimlo bod angen mwy o gefnogaeth, cynhelir adolygiad person ganolog er mwyn dod i benderfyniad os oes ADY neu beidio. Dyfernir bod ADY dim ond os oes angen darpariaeth uwchben popeth mae unrhyw ddisgybl arall yn ei dderbyn ac fe greir Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn dilyn hyn. Adolygir y CDU mor aml â sydd angen, ond o leiaf unwaith y flwyddyn.

Our school strives to be inclusive, and we make every effort to ensure that all needs are met. We create one-page profiles to inform all staff what strategies work best for the individual and which reasonable adjustments need to be in place.

If the school/pupil/parent feel that more support is required, then a person-centred review is held to determine if there is ALN or not. ALN status is given if the child or young person requires support above and beyond what any other pupil is offered and an Individual Development Plan (IDP) is put in place. The IDP is reviewed as often as required but at least once per academic year.

Manylion y cyfleusterau a ddarperir i gynorthwyo mynediad i'r ysgol gan ddysgwyr ag anableddau (er enghraifft mynediad corfforol neu fynediad i'r cwricwlwm):

Details of facilities provided to assist access to the school by learners with disabilities (for example physical access or access to the curriculum):

Mynedfeydd hygyrch - rampiau/drysau llydan

Lifft i'r ail lawr

Offer wedi ei addasu yn ôl cyfarwyddyd OT

Hoist (Canolfan y Bont)

Cwricwlwm wedi ei deilwra

Cyngor arbenigol asiantaethau allanol - Iaith a Lleferydd, Therapi Galwedigaethol, Ffysiotherapi, Meddygon Plant, Cyngor Iechyd Meddwl

Cynlluniau a rhaglenni dysgu arbenigol e.e. Clicker 8

Ymyrraethau iaith, rhif a lles

Accessible access routes around school via ramps and a Lift to the second floor.

Specialist equipment

Bespoke curriculum

Specialist advice via external agencies - Speech and language, Occupational Therapy, Physiotherapy, Paediatrics, Child and adult mental health team.

Specialist learning programmes

Literacy, numeracy and wellbeing interventions.

Cynnydd o ran bodloni nodau chwaraeon, ac unrhyw gyflawniadau chwaraeon nodedig:
Progress in meeting sporting aims, and any notable sporting achievements:

Mae'r ysgol yn parhau i hyrwyddo cyfranogiad eang mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gyda'r nod o sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i gymryd rhan, datblygu sgiliau newydd a mwynhau manteision ffordd iach o fyw.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer fawr o ddisgyblion wedi cynrychioli'r ysgol mewn amrywiaeth eang o chwaraeon, gan gynnwys rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, trawsgwlad, athletau a chriced. Mae timau ac unigolion wedi cystadlu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau sirol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan arddangos ymroddiad, gwaith tîm a balchder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn parhau i ddarparu rhaglen gyfoethog o glybiau allgyrsiol a gweithgareddau chwaraeon sy'n cyfrannu at iechyd a lles ein dysgwyr. Mae lefelau cyfranogiad yn parhau'n uchel, gyda llawer o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd ychwanegol i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder.

Hoffem ddiolch i staff, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a rhieni am eu cefnogaeth barhaus, sydd yn galluogi ein dysgwyr i gymryd rhan mewn ystod mor eang o weithgareddau a chyflawniadau chwaraeon. Mae'r ymrwymiad hwn wedi helpu i feithrin diwylliant cryf o gyfranogiad, llesiant a llwyddiant chwaraeon ar draws yr ysgol.

The school continues to promote broad participation in sport and physical activity, ensuring that all learners have opportunities to take part, develop new skills and enjoy the benefits of a healthy lifestyle.

Over the past year, a large number of pupils have represented the school across a wide range of sports, including rugby, football, netball, cross-country, athletics and cricket. Teams and individual competitors have achieved success at county, regional and national level, demonstrating commitment, teamwork and pride in their school.

The school continues to provide a rich programme of extra-curricular sporting activities and clubs that contribute positively to the health and wellbeing of our learners. Participation levels remain high, with many pupils taking advantage of additional opportunities to develop their skills and confidence.

We would like to thank staff, coaches, volunteers and parents for their continued support, which enables our learners to participate in such a wide range of sporting activities and achievements. This commitment has helped foster a strong culture of participation, wellbeing and sporting success across the school.

6. Bwyta ac yfed yn iach / Healthy eating and drinking:

Camau a gymerwyd i hybu bwyta ac yfed yn iach:

Action taken to promote healthy eating and drinking:

Mae nifer o gamau wedi'u cymryd i hyrwyddo arferion bwyta ac yfed iach ymhlith y disgyblion. Cynhelir gwersi lles sy'n hyrwyddo pwysigrwydd bwyta'n iach a ffordd o fyw iach. Cynhelir hefyd weithdai, megis *Yr Hyn Sy'n Bwysig*, er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd a lles. Mae Chwarter Chwim yn digwydd yn y Cynradd, lle maen nhw'n cael chwarter awr o gerdded/rhedeg i hybu lles a chael nhw'n barod i ddysgu.

Mae amrywiaeth o bobl a phersonoliaethau wedi cael eu cyfweld er mwyn rhannu eu barn a'u profiadau am fwyta'n iach. Mae hyn yn helpu'r disgyblion i ddeall bod bwyta ac yfed yn iach yn bwysig, waeth beth fo'u diddordebau neu eu dyheadau gyrfaol.

Mae gorsafoedd dŵr ar gael o amgylch yr ysgol er mwyn annog disgyblion i lenwi ac ail-lenwi eu poteli dŵr. Mae dŵr a chwpanau hefyd ar gael yn y ffreutur ac yn y dderbynfa yn y campws lau er mwyn sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn dewis yfed dŵr yn ystod y dydd.

Yn ogystal, cynhaliwyd trafodaethau gyda staff y ffreutur ynghylch y bwyd sy'n cael ei weini. Gofynnwyd iddynt edrych ar y dewisiadau presennol ac ystyried ffyrdd o ddarparu opsiynau iachach i'r disgyblion. Bydd y trafodaethau hyn yn parhau er mwyn sicrhau bod dewis ehangach o fwyd a diodydd iach ar gael.

A number of steps have been taken to promote healthy eating and drinking habits among the pupils. Wellbeing lessons are held to promote the importance of healthy eating and a healthy lifestyle. Workshops, such as 'What Matters', are also conducted to raise awareness of the importance of health and wellbeing. A 'Quick Quarter' takes place in the primary section, where pupils engage in fifteen minutes of walking or running to boost wellbeing and prepare them for learning. A variety of people and personalities have been interviewed to share their views and experiences regarding healthy eating. This helps pupils understand that healthy eating and drinking are important, regardless of their interests or career aspirations. Water stations are available around the school to encourage pupils to fill and refill their water bottles. Water and cups are also available in the canteen and at the Junior campus reception to ensure more pupils choose to drink water during the day. In addition, discussions have been held with canteen staff regarding the food being served. They were asked to review current choices and consider ways to provide healthier options for the pupils. These discussions will continue in order to ensure that a wider range of healthy food and drinks is available.

7. Cwricwlwm a threfniadaeth addysg a dulliau addysgu / Curriculum and organisation of education and teaching methods:

Datganiad ar y cwricwlwm a threfniadaeth addysg a dulliau addysgu:

Statement on the Curriculum and organisation of education and teaching methods:

Linc i Gynnodeb ein Cwricwlwm: / [Link to the summary of our Curriculum:](#)

[Ysgol Bro Pedr - Crynodeb Cwricwlwm Bro Pedr Curriculum Summary](#)

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu a mireinio ei dulliau dysgu ac addysgu drwy ddefnyddio egwyddorion Rosenshine fel sail i arferion dosbarth effeithiol. Mae'r egwyddorion hyn yn seiliedig ar ymchwil i sut mae disgyblion yn dysgu orau, gan ganolbwyntio ar gyflwyno gwybodaeth mewn camau bach, adeiladu ar ddysgu blaenorol, rhoi cyfleoedd rheolaidd i ymarfer a sicrhau bod pob disgybl yn deall cyn symud ymlaen.

Yn ystod y cyfnod diweddar, mae ffocws penodol wedi bod ar gryfhau adalw gwybodaeth drwy weithgareddau cyson sy'n helpu disgyblion i gofio a defnyddio eu dysgu dros gyfnod hirach. Mae hyn yn cefnogi datblygiad gwybodaeth gadarn ac yn helpu disgyblion i wneud cysylltiadau rhwng eu dysgu newydd a'u dysgu blaenorol.

Mae staff hefyd wedi canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau cwestiynu effeithiol, gan ddefnyddio cwestiynau wedi'u cynllunio'n ofalus i wirio dealltwriaeth, herio meddwl a sicrhau cyfranogiad eang gan ddisgyblion. Yn ogystal, mae defnydd cynyddol o fodelu yn y dosbarthiadau, gyda staff yn arddangos yn glir y broses feddwl, y sgiliau a'r disgwyliadau sydd eu hangen er mwyn galluogi disgyblion i lwyddo.

Yn unol ag egwyddorion Rosenshine, mae'r ysgol hefyd wedi rhoi sylw i sicrhau bod disgyblion yn cael digon o amser i ymateb i adborth a gwella eu gwaith. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i fyfyrar ar eu cynnydd, cywiro camdealltwriaeth a datblygu mwy o annibyniaeth yn eu dysgu. Trwy'r gwaith hwn, rydym yn ceisio sicrhau dull cyson o addysgu ar draws yr ysgol sy'n cefnogi cynnydd, yn lleihau bylchau mewn dealltwriaeth ac yn galluogi pob disgybl i gyflawni ei botensial. Fel rhan o waith sicrhau ansawdd yr ysgol a'n hymrwymiad i wella dysgu ac addysgu yn barhaus, mae pob aelod o'r tîm rheolwyr canol wedi derbyn hyfforddiant gan John Sullivan ar ddefnyddio dulliau coaching effeithiol. Mae'r hyfforddiant hwn wedi galluogi arweinwyr i ddatblygu sgysiau proffesiynol mwy effeithiol sy'n canolbwyntio ar adnabod cryfderau, meysydd i'w datblygu a chamau gweithredu clir ar gyfer gwelliant. Drwy'r dull hwn, mae rheolwyr canol yn fwy abl i gefnogi staff, rhannu arferion effeithiol a nodi cyfleoedd pellach i wella ansawdd dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at ddiwylliant o fyfyrar, cydweithio a gwelliant parhaus sy'n sicrhau'r profiadau dysgu gorau posibl i'n disgyblion.

The school continues to develop and refine its teaching and learning approaches through the use of Rosenshine's Principles of Instruction as a foundation for effective classroom practice. These principles are based on research into how pupils learn most effectively and focus on presenting new information in small steps, building on prior learning, providing regular

opportunities for practice, and ensuring that pupils have a secure understanding before moving on.

Over the recent period, a particular focus has been placed on retrieval practice, helping pupils to recall and apply prior learning regularly. This supports long-term memory, strengthens knowledge retention, and helps pupils make meaningful connections between new and previous learning.

Staff have also been developing their use of effective questioning strategies to check understanding, challenge thinking, and increase participation across the classroom. Carefully planned questioning is helping teachers identify misconceptions, assess pupils' understanding in real time, and encourage deeper thinking.

In addition, there has been an increased emphasis on modelling. Teachers are making their thinking more explicit by demonstrating processes, skills, and examples of high-quality work. This provides pupils with greater clarity about expectations and supports them in developing confidence and independence in their learning.

In line with Rosenshine's principles, the school has also focused on ensuring that pupils are given sufficient time to respond to feedback and improve their work. This allows learners to reflect on their progress, address misconceptions, and make meaningful improvements that deepen their understanding.

Through this work, the school is striving to establish a consistent, evidence-informed approach to teaching and learning across all departments, supporting pupil progress, reducing gaps in understanding, and enabling all learners to achieve their full potential.

As part of the school's quality assurance work and commitment to continuous improvement in teaching and learning, all middle leaders have received coaching training led by Sir John Sullivan. This training has equipped leaders with the skills to facilitate effective professional conversations focused on identifying strengths, areas for development, and clear actions for improvement. Through this coaching approach, middle leaders are better placed to support colleagues, share effective practice, and identify further opportunities to enhance the quality of teaching and learning across the school. This work contributes to a culture of reflection, collaboration, and continuous improvement, ensuring the best possible learning experiences for all pupils.

8. Yr iaith Gymraeg / Welsh language:

Categori iaith yr ysgol / Language category of the school:

Ysgol gyfan - Trosiannol 3

Whole school - Transitional 3

Dysgu Sylfaen-Blwyddyn 3 - Categori 3

Foundation Phase-Year 3 - Category 3

Bl.4-6 ac Uwchradd - Trosiannol 3

Years 4-6 and Secondary - Transitional 3

Defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol gan ddysgwyr o bob oedran:

Use of Welsh language in the school by learners of all age groups:

Mae Ysgol Bro Pedr yn parhau ar ei thaith i gryfhau a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod oedran. Mae ein continiwm iaith yn sicrhau bod pob dysgwr yn y Meithrin hyd at Flwyddyn 3 yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gan osod sylfeini cadarn ar gyfer datblygu medrau dwyieithog cryf.

Ym Mlwyddyn 4 a Blwyddyn 5, mae'r ysgol yn darparu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ynghyd â dosbarth 50:50, tra bod un dosbarth Ail Iaith Cymraeg yn parhau ym Mlwyddyn 6 ac ar draws y sector uwchradd. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i symud ymlaen ar y continiwm iaith a chynyddu cyfran y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn gwersi cyfrwng Cymraeg ac mewn gweithgareddau ffurfiol. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan Estyn, mae llawer o ddisgyblion yn dal yn rhy barod i droi at y Saesneg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac wrth gymdeithasu gyda'u cyfoedion. Mae cynyddu'r defnydd naturiol o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac mewn sgysiaau bob dydd yn flaenoriaeth allweddol i'r ysgol.

Trwy waith y Fforwm Cymreictod, gweithgareddau cyfoethogi, Radio Bro Pedr a mentrau llais y disgybl, rydym yn parhau i hyrwyddo balchder yn yr iaith Gymraeg ac annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Mae datblygu defnydd dyddiol a naturiol o'r Gymraeg yn rhan bwysig o'n Cynllun Datblygu Ysgol ac yn un o argymhellion arolygiad diweddar Estyn.

Ysgol Bro Pedr continues on its journey to strengthen and develop Welsh-medium education across all age phases. Our language continuum ensures that all learners from Nursery to Year 3 receive their education through the medium of Welsh, providing strong foundations for the development of bilingual skills.

In Years 4 and 5, the school provides Welsh-medium classes alongside 50:50 classes, while one Welsh Second Language class remains in Year 6 and throughout the secondary sector. This reflects the school's commitment to progressing along the language continuum and increasing the proportion of learners accessing Welsh-medium education.

Many learners use Welsh confidently within Welsh-medium lessons and formal activities. However, as identified by Estyn, many pupils remain too willing to switch to English in informal situations and when socialising with their peers. Increasing the natural use of Welsh beyond the classroom and in everyday conversations remains a key priority for the school.

Through the work of the Welshness Forum, enrichment activities, Radio Bro Pedr and pupil voice initiatives, we continue to promote pride in the Welsh language and encourage learners to use Welsh confidently in all aspects of school life. Developing the everyday and natural use of Welsh forms an important part of our School Development Plan and responds directly to a recommendation from the recent Estyn inspection.

I ba raddau y mae'r Gymraeg yn iaith cyfathrebu arferol yn y ysgol:

The extent to which Welsh is the usual language of communication at the school:

Mae Ysgol Bro Pedr yn ysgol Gymreig ei natur, lle mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o fywyd bob dydd yr ysgol. Defnyddir y Gymraeg yn helaeth mewn addysgu, gweithgareddau ysgol, gwasanaethau, digwyddiadau diwylliannol ac wrth gyfathrebu gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni.

Mae mwyafrif ein disgyblion yn deall y Gymraeg yn hyderus ac yn gallu defnyddio'r iaith yn effeithiol mewn sefyllfaoedd dysgu. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau a phrofiadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan feithrin balchder yn yr iaith a'n treftadaeth.

Fodd bynnag, er bod llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol, mae rhai yn llai hyderus wrth siarad Cymraeg yn naturiol â'u cyfoedion. Fel y nodwyd gan Estyn, mae llawer o ddisgyblion yn rhy barod i droi at y Saesneg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac anffurfiol. Mae cynyddu'r defnydd naturiol o'r Gymraeg mewn sgysiau bob dydd felly yn flaenoriaeth bwysig i'r ysgol.

Trwy waith y Fforwm Cymreictod, Radio Bro Pedr, mentrau llais y disgybl ac ystod eang o weithgareddau cyfoethogi, rydym yn parhau i annog defnydd mwy hyderus a chyson o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae hyn yn rhan allweddol o'n gweledigaeth i gryfhau'r Gymraeg fel iaith naturiol cyfathrebu ymhlith ein dysgwyr.

Mae mwyafrif ein disgyblion yn deall y Gymraeg yn hyderus ac yn gallu defnyddio'r iaith yn effeithiol mewn sefyllfaoedd dysgu. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o hwyrddyfodiaid yn ymuno â'r ysgol gyda gwybodaeth gyfyngedig o'r Gymraeg, ac mae rhai yn ei chael yn anodd deall a defnyddio'r iaith yn hyderus. Yn hyn o beth, byddai sefydlu Canolfan Drochi yn gam pwysig ymlaen wrth gefnogi dysgwyr newydd i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn gyflym a'u galluogi i gymryd rhan lawn ym mywyd a chwricwlwm yr ysgol. Byddai hyn hefyd yn cefnogi gweledigaeth yr ysgol a'r sir i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus.

Ysgol Bro Pedr is Welsh in its character and ethos, with Welsh forming a central part of everyday school life. The language is used extensively in teaching, school activities, assemblies, cultural events and communication with pupils, staff, governors and parents.

Most of our learners understand Welsh confidently and are able to use the language effectively in learning situations. The school provides a wide range of activities and experiences that

promote the Welsh language and Welsh culture, helping to foster pride in both the language and our heritage.

However, while many pupils use Welsh confidently in formal situations, some are less confident when speaking Welsh naturally with their peers. As identified by Estyn, many pupils are too willing to switch to English in social and informal situations. Increasing the natural use of Welsh in everyday conversations therefore remains an important priority for the school.

Through the work of the Welshness Forum, Radio Bro Pedr, pupil voice initiatives and a broad range of enrichment activities, we continue to encourage more confident and consistent use of Welsh in all aspects of school life. This forms a key part of our vision to strengthen Welsh as the natural language of communication amongst our learner.

The majority of our learners understand Welsh confidently and are able to use the language effectively in learning situations. However, an increasing number of latecomers join the school with limited knowledge of Welsh, and some find it difficult to understand and use the language confidently. In this respect, the establishment of an Immersion Centre would be a significant step forward in supporting new learners to develop their Welsh language skills rapidly and enable them to participate fully in the life and curriculum of the school. This would also support the school's and the county's vision of increasing the number of learners who are confident Welsh speakers.

Disgrifiad byr o drefniadau'r ysgol i hwyluso parhad yn y defnydd o'r Ddarpariaeth Sgiliau Cymraeg:

A brief description of the arrangements at the school to facilitate continuity of the use of Welsh language skills Provision:

Mae Ysgol Bro Pedr wedi ymrwymo i sicrhau dilyniant a chynnydd yn natblygiad medrau Cymraeg dysgwyr o'r Meithrin hyd at y Chweched Dosbarth. Mae'r ysgol wedi sefydlu continiwm iaith clir sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu yn raddol ac yn briodol i'w hoedran a'u gallu.

Mae pob disgybl o'r Meithrin i Flwyddyn 3 yn cael ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg a 50:50 ym Mlynnyddoedd 4 a 5. Mae hyn yn cefnogi trosglwyddiad graddol ar hyd y continwrm iaith ac yn sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd yr ysgol drwy weithgareddau dosbarth, gwasanaethau, eisteddfodau, Radio Bro Pedr, gwaith y Fforwm Cymreictod a rhaglen eang o weithgareddau cyfoethogi. Mae'r ysgol yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio'r iaith yn naturiol ac yn hyderus.

Mae'r ysgol hefyd yn ymwybodol bod nifer cynyddol o hwyrddyfodiaid yn ymuno â'r ysgol gyda medrau Cymraeg cyfyngedig. O ganlyniad, rydym yn gweithio i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i'r dysgwyr hyn ac yn credu y byddai sefydlu Canolfan Drochi yn gymorth gwerthfawr i hwyluso datblygiad iaith cyflym a sicrhau parhad yn eu defnydd o'r Gymraeg.

Ysgol Bro Pedr is committed to ensuring continuity and progression in learners' Welsh language skills from Nursery through to Sixth Form. The school has established a clear language continuum that enables learners to develop their listening, speaking, reading and writing skills progressively and appropriately according to age and ability.

All pupils from Nursery to Year 3 are educated through the medium of Welsh, with Welsh-medium and 50:50 provision available in Years 4 and 5. This supports a gradual progression along the language continuum and ensures that learners continue to develop their Welsh language skills across the curriculum.

Welsh forms an integral part of everyday school life through classroom activities, assemblies, eisteddfodau, Radio Bro Pedr, the Welshness Forum and a wide range of enrichment activities. The school actively promotes the use of Welsh both inside and outside the classroom to encourage learners to use the language naturally and confidently.

The school is also aware of the increasing number of latecomers who join with limited Welsh language skills. As a result, we continue to strengthen the support available for these learners and believe that the establishment of an Immersion Centre would provide valuable support in accelerating language acquisition and ensuring continuity in the use of Welsh.

9. Darpariaeth Cyfleusterau toiled / *Provision of toilet facilities*

Datganiad byr ar ddarpariaeth gyfleusterau toiledau:

A brief statement on the provision of toilet facilities:

Mae'r ysgol yn cydnabod bod angen gwella rhai o'r cyfleusterau toiledau presennol, yn enwedig toiledau'r bechgyn yn yr adran uwchradd. Mae disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned ehangach wedi codi pryderon ynghylch cyflwr ac addasrwydd y cyfleusterau hyn, ac mae'r ysgol yn cytuno nad ydynt yn adlewyrchu'r safon amgylchedd dysgu a lles rydym yn ceisio ei ddarparu i'n dysgwyr. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol i ddatblygu achos busnes fel rhan o gynllun ehangach i sicrhau cyllid ar gyfer adnewyddu a gwella'r cyfleusterau. Ein nod yw darparu cyfleusterau modern, diogel ac urddasol sy'n diwallu anghenion ein disgyblion ac yn cefnogi eu lles a'u profiad dyddiol yn yr ysgol.

The school recognises that aspects of the current toilet provision require improvement, particularly the boys' toilet facilities within the secondary department. Pupils, parents and stakeholders have raised concerns regarding the condition and suitability of these facilities, and the school agrees that they do not reflect the standard of learning environment and wellbeing provision we seek to provide for our learners.

The school is working closely with the Local Authority to develop a business case as part of a wider project to secure funding for refurbishment and improvement works. Our aim is to provide modern, safe and dignified facilities that meet the needs of our pupils and support their wellbeing and day-to-day experience in school.

Trefniadau ar waith ar gyfer glanhau cyfleusterau toiledau:

Arrangements in place for cleaning toilet facilities:

Mae'r cyfleusterau toiledau yn cael eu glanhau'n rheolaidd gan dîm glanhau'r ysgol, o dan oruchwyliaeth y Rheolwr Safle a'r Rheolwr Busnes. Mae trefniadau ar waith i fonitro cyflwr y cyfleusterau a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau cynnal a chadw neu lanhau sy'n codi. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn cydnabod bod cyflwr ac ansawdd rhai o'r cyfleusterau, yn enwedig toiledau'r bechgyn yn yr adran uwchradd, yn peri her sylweddol. Mae aelodau'r tîm glanhau wedi mynegi pryderon yn rheolaidd ynghylch cyflwr y cyfleusterau a'r anawsterau sy'n codi wrth geisio cynnal safon uchel o lanweithdra mewn amgylchedd lle mae'r adeiladau a'r gosodiadau yn hen ac wedi dyddio.

Mae'r ysgol hefyd wedi gorfod mynd i'r afael â digwyddiadau o fandaliaeth a diffyg parch at y cyfleusterau gan leiafrif bach o ddisgyblion. Credwn fod cyflwr gwael y cyfleusterau presennol yn cyfrannu at agweddau negyddol tuag atynt ac yn ei gwneud yn anoddach meithrin ymdeimlad o falchder a chyfrifoldeb ymhlith defnyddwyr.

Er gwaethaf gwaith caled a phroffesiynoldeb y tîm glanhau a'r Rheolwr Safle, mae'r ysgol o'r farn nad yw safon y cyfleusterau presennol yn dderbyniol yn yr hirdymor. O ganlyniad, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol i ddatblygu achos busnes er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer adnewyddu a gwella'r cyfleusterau toiledau fel bod modd darparu amgylchedd glanach, mwy modern a mwy urddasol i'n dysgwyr.

The school's toilet facilities are cleaned regularly by the cleaning team under the supervision of the Site Manager. Arrangements are in place to monitor the condition of the facilities and address any maintenance or cleanliness issues as they arise.

However, the school recognises that the condition and quality of some facilities, particularly the boys' toilets within the secondary department, presents a significant challenge. Members of the cleaning team have regularly expressed concerns about the condition of the facilities and the difficulties involved in maintaining a high standard of cleanliness where the fixtures and environment are ageing and outdated.

The school has also had to address incidents of vandalism and a lack of respect for the facilities by a small minority of pupils. We believe that the poor condition of the current facilities contributes to negative attitudes towards them and makes it more difficult to foster a sense of pride and responsibility amongst users.

Despite the hard work and professionalism of the cleaning staff and the Site Manager, the school believes that the current standard of facilities is not acceptable in the longer term. As a result, we are working closely with the Local Authority to develop a business case to secure funding for refurbishment and improvement works, enabling the provision of cleaner, more modern and more dignified facilities for our learners.

Deiseb / Petitions

Mae Deddf Safonau a Thrafnidiaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu trefniadau sydd yn galluogi rhieni i ofyn am gyfarfod gyda'r Corff Llywodraethol. Bydd angen i rieni gyflawni pedwar gofynion statudol wrth ofyn am gyfarfod, sy'n cynnwys:

The School Standards Act 2013 (Section 94) provides arrangements whereby parents can request a meeting with the Governing Body. Parents will need to fulfil four statutory requirements when requesting a meeting which include:

1.	Dylid deiseb cael ei chyflwyno gyda llofnod 10% o ddisgyblion cofrestredig neu rieni 30 o ddisgyblion cofrestredig (pa bynnag yw'r isaf). <i>A petition should be presented with the signatures of the parents of 10% of registered pupils or the parents of 30 registered pupils (whichever is the lower).</i>
2.	Rhaid i bwrpas y cyfarfod bod i drafod materion sy'n berthnasol i'r ysgol. <i>The meeting must be of the purpose to discuss matters relating to the school.</i>
3.	Uchafswm o gyfarfodydd gall rieni alw mewn blwyddyn ysgol ydy tri (3). <i>The maximum number of meetings that parents can request in a school year is three (3).</i>
4.	Rhaid bod digon o ddyddiau ysgol fod ar ôl mewn blwyddyn i gynnal cyfarfod. <i>There must be sufficient school days left in the year to allow a meeting to be held.</i>

Mae gofynion statudol ychwanegol ynghylch y cyfarfod yn cynnwys:

Further statutory requirements regarding the meeting include:

1.	Rhaid i'r Cyfarfod cael ei gynnal o fewn 25 diwrnod ysgol o dderbyn y deiseb. <i>The Meeting must be held within 25 school days of receiving the petition.</i>
2.	Mae cyfnod y 25 diwrnod yn dechrau y diwrnod ar ôl derbyn y deiseb. <i>The 25 day period commences the day after receipt.</i>
3.	Os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod 25 diwrnod hwnnw yn dechrau tan y diwrnod ar ôl i'r gyfarfod arall cael ei gynnal. <i>If another meeting is required as a result of a different petition, the 25 day period will not commence until the day after the other meeting has been held.</i>
4.	Bydd y cyfarfodydd yn agored i holl rieni o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw berson arall caiff eu gwahodd gan y Corff Llywodraethol. <i>Meetings will be open to all parents of registered pupils at the school, the headteacher and any other person invited by the Governing Body.</i>
5.	Rhaid i hysbysiad o gyfarfodydd i rieni gynnwys y dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod a'r mater(ion) i'w trafod.

	<i>Notification of meetings to parents must include the date, time and venue of the meeting and the matter(s) to be discussed.</i>
--	--

Rhaid i'r Corff Llywodraethol hysbysu'r rhieni'n flynyddol am yr hawl i gyflwyno deiseb am gyfarfod gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir gan Adran 94.

The Governing Body must inform parents annually of the right to petition a meeting using the powers provided by Section 94.

Dyddiadau Ysgol 2026-2027 / School Dates:

<https://www.ceredigion.gov.uk/media/xppnw5dn/dyddiadau-gwylliau-ysgol-2026-2027.pdf>

<https://www.ceredigion.gov.uk/media/rjxbbkn1/school-holiday-dates-2026-2027.pdf>